3:57

X 205208591




# YR ANTHEM GENEDLAETHOL.

O! FRENHIN mawr y byd
    Amddiffyn Di o hyd
        Deyrn Prydain Fawr;
Ei orsedd cadarnhâ,
A'i freiniol law cryfha;
Yn ffyrdd y doeth a'r da
        Dal ef bob awr.

O orsedd wen y nef,
Duw, tywallt arno ef
        Dy ddoniau rhad;
O! boed i'th Ysbryd Di
Fendithio'n Brenhin ni,
A'i gadw yn ei fri
        Yn nawdd i'n gwlad.

Llewyrched goleu hedd
Ar ei frenhinol sedd,
        A'i deyrnas oll;
O! cynal ef bob awr
A nerth Dy allu mawr,
A'th ras fo iddo'n awr
        Yn nawdd digoll.

Dan ei lywodraeth ef,
Aed dylanwadau'r nef
        O fôr i fôr;
O! boed i'n Brenhin ni
Ddyrchafu clod a bri
Dy lân Frenhiniaeth Di,
        O! Arglwydd Ior.

Lewis, Argraffydd, Llandyssul. 1910